

Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygio) (Cymru) 2022

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Datblygu Gwledig a Deddfwriaeth yn Adran Buddsoddi Rhanbarthol a Ffiniau Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygio) (Cymru) 2022.

Vaughan Gething AS
Gweinidog yr Economi
15 Rhagfyr 2022

1. Disgrifiad

1.1 Diben yr offeryn hwn yw i estyn y Cyfnod Graddoli Trosiannol ar ôl ymadael â'r UE i alluogi amser ychwanegol i ddatblygu a chwblhau cynigion trefn ffiniau ar gyfer y dyfodol sy'n diogelu ein bioddiogelwch ac yn cefnogi masnach, drwy sicrhau, o fewn Cymru, a rhwng Prydain Fawr a'r 'diriogaeth sy'n ddarostyngedig i drefniadau mewnforio trosiannol arbennig' fel y'i diffinnir yn Atodiad 6 i Reoliad (UE) 2017/625 ("y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol")¹, fod rheolaethau ffiniau swyddogol effeithiol yn parhau i weithredu ar ôl diwedd y Cyfnod Pontio.

1.2 Mae'r newidiadau a wneir gan yr offeryn hwn yn ymwneud â rheolaethau ar fewnforion i Gymru ar gyfer y gyfres o nwyddau a elwir gyda'i gilydd yn nwyddau iechydol a ffytoiechydol.

1.3 Mae'r offeryn hwn yn diwygio'r rheoliadau canlynol:

- Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) 2021
- Rheoliadau Paratodau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Roedd Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ("Deddf 2018") yn trosi ac yn cadw cyfraith yr UE ar ddiwedd y Cyfnod Pontio yn gyfraith ddomestig ("cyfraith yr UE a ddargedwir"). Roedd hefyd yn darparu bod diwygiadau yn cael eu gwneud i fynd i'r afael â diffygion sy'n deillio o ymadael â'r UE.

2.2 Roedd y diwygiadau hynny'n cynnwys cyflwyno 'cyfnod graddoli trosiannol' ar gyfer nwyddau sy'n cyrraedd Prydain Fawr o'r UE a rhai gwledydd eraill. Gwnaed darpariaeth i ddyddiadau dod i ben y cyfnodau trosiannol hynny gael eu newid gan offeryn statudol. Gwneir yr offeryn hwn drwy arfer y pwerau hynny, sef paragraff 2 o Atodiad 6 i'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol.

2.3 Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, mae'r Llywydd wedi ei hysbysu y bydd yr Offeryn hwn yn dod i rym mewn llai na 21 o ddiwrnodau ar ôl cyflwyno'r offeryn. Rhaid i'r ddeddfwriaeth ddod i rym erbyn 30 Rhagfyr er mwyn sicrhau nad yw'r cyfnod graddoli trosiannol yn dod i ben ac na fydd bwlch yn y darpariaethau trosiannol. Yn ogystal, mae'r ddeddfwriaeth yn diwygio ymhellach y dyddiadau a geir yn Rheoliadau Paratodau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol)

¹ Mae 'tiriogaeth', fel y'i diffinnir yn Atodiad 6 i 2020/1481, yn cynnwys yr Undeb Ewropeaidd, gwladwriaethau'r AEE, a gwledydd penodedig eraill, y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon fel 'yr Undeb Ewropeaidd' neu 'UE'

(Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021 er mwyn iddynt fod yn unol â'r dyddiad TSP newydd.

2.4 Heb y ddeddfwriaeth hon, ac yn absenoldeb safleoedd rheoli ffin, byddem i bob pwrpas yn cau llwybrau masnach i Gymru ar gyfer rhai nwyddau o 1 Ionawr 2023 ymlaen. Yn flaenorol, mae Llywodraeth y DU, ar ran Cymru a chyda chydysyniad Gweinidogion Cymru, wedi cyflwyno Rheoliadau sy'n ymwneud â'r Cyfnod Graddoli Trosiannol (TSP) ar gyfer nwyddau sy'n dod i mewn i Brydain Fawr o'r UE a rhai gwledydd eraill. Fodd bynnag, penderfynwyd gennym y byddai'n well deddfu yng Nghymru ar y mater hwn gan gydlynu cyn belled ag y bo modd ar sail Prydain Fawr. Fodd bynnag, mae'r ansicrwydd o ran Llywodraeth y DU wedi gohirio cyfarfodydd gweinidogol lle y byddai'r polisi yn ymwneud â'r ffin, gan gynnwys estyniad y TSP, wedi cael ei drafod. Gydag ansicrwydd yn parhau mewn manau eraill nid oedd modd aros ymhellach a bu rhaid i Lywodraeth Cymru benderfynu bwrw ymlaen â chyflwyno Rheoliadau i Gymru ar ddyddiad a chyfnod llawer diweddarach nag a fyddai fel arfer yn digwydd.

3. Cefndir deddfwriaethol

- 3.1 Roedd offerynnau statudol a wnaed ac a ddaeth i rym o dan bwerau Deddf 2018 (ar ddiwedd 2020), yn rhoi effaith i benderfyniad Llywodraeth y DU i gyflwyno gwiriadau ar fewnforion iechydol a ffytoiechydol o'r UE yn raddol, ar ôl diwedd y Cyfnod Pontio ar 31 Rhagfyr 2020. Roedd y rhain yn cynnwys diwygiadau i reoliadau sy'n llywodraethu Rheolaethau Swyddogol, masnach mewn anifeiliaid a chynhyrchion cysylltiedig, a phlanhigion a chynhyrchion cysylltiedig.
- 3.2 Roedd y diwygiadau hynny'n cynnwys cyflwyno 'cyfnod graddoli trosiannol' ar gyfer nwyddau sy'n cyrraedd Prydain Fawr o'r UE a rhai gwledydd eraill. Gwnaed darpariaeth i ddyddiadau dod i ben y cyfnodau trosiannol hynny gael eu newid gan offeryn statudol. Gwneir yr offeryn hwn drwy arfer y pwerau hynny, sef paragraff 2 o Atodiad 6 i'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol.'
- 3.3 Mae'r dyddiadau hyn a amlinellir yn y cyfnod graddoli trosiannol wedi eu diwygio o'r blaen gan Reoliadau Masnach a Rheolaethau Swyddogol (Trefniadau Trosiannol ar gyfer Hysbysiadau Ymlaen Llaw) (Diwygio) 2021 (O.S. 2021/429), Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) 2021 (O.S. 2021/809), Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2021 (O.S. 2021/1096), Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Rhif 2) 2021 (O.S. 2021/1443) a Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygio) 2022 (O.S. 2022/621).
- 3.4. Ar 28 Ebrill 2022, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei phenderfyniad i ddiwygio'r amserlen ar gyfer cyflwyno'r holl wiriadau mewnforio sy'n weddill, heb unrhyw wiriadau pellach i gael eu cyflwyno ar nwyddau o'r

UE yn 2022. Amlinellir y penderfyniad hwn yn y Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar y dyddiad hwnnw, a oedd yn cydnabod bod busnesau wedi wynebu ystod o heriau dros y misoedd diwethaf wrth iddynt adfer ar ôl y pandemig byd-eang, yn ogystal â'r ffaith bod costau cynyddol a achosir gan ryfel Rwsia yn Wcráin a phrisiau ynni yn effeithio ar y cyhoedd. Felly, ni fyddai'r gwiriadau mewnforio sy'n weddill yn dod i rym fel y cynlluniwyd o 1 Gorffennaf 2022 ymlaen.

- 3.5 Cyhoeddodd Llywodraeth y DU adolygiad hefyd o drefn ffiniau Prydain Fawr. Mae Llywodraeth Cymru yn edrych ymlaen at ddadansoddi casgliadau yn ei Model Gweithredu Targed cyn gynted ag y bydd wedi ei gwblhau ac ar gael, er mwyn asesu'r gofynion seilwaith, goblygiadau o ran adnoddau ac amserlen cyflenwi. Disgwylir cyhoeddi Model Gweithredu Targed ddechrau'r flwyddyn nesaf, a fydd yn nodi'r drefn newydd o reolaethau mewnforio ar y ffin. Bydd hyn yn cynnwys dull rheolaethol sy'n dechnolegol flaengar, gyda'r nod o leihau ffrihiant a chostau masnach i fusnesau. Bydd y Model Gweithredu Ffiniau hefyd yn cael ei ddiweddarau i amlinellu unrhyw gamau eraill sy'n benodol i nwyddau iechydol a ffytoiechydol o'r UE. Yn y cyfamser mae angen deddfu i ohirio cyflwyno gwiriadau gan y byddai fel arall yn anghyfreithlon mewnforio'r nwyddau hyn i borthladdoedd Cymru ac eithrio drwy Safleoedd Rheoli Ffiniau dynodedig nad ydynt yn bodoli eto yng Nghymru.
- 3.6 Bydd mewnforwyr yn disgwyl yr estyniad hwn gan fod cyhoeddiad y DU wedi ymrwmo i sicrhau na fydd gwiriadau newydd tan ddiwedd 2023 a chan fod y ddeddfwriaeth bresennol sy'n gohirio'r gwiriadau hyn yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2022. Mae'r gwiriadau hyn yn cael eu gohirio mewn manau eraill ym Mhrydain Fawr hefyd.
- 3.7 Effaith yr offeryn hwn hefyd yw estyn, tan 31 Ionawr 2024, yr eithriadau rhag gwiriadau mewnforio ar gyfer nwyddau personol sy'n rhan o fapiau teithwyr (ac eithrio planhigion ar gyfer plannu) ac a fwriedir ar gyfer eu bwyta neu eu defnyddio'n bersonol, llwythi bach o nwyddau a anfonir at bersonau naturiol ac na fwriedir eu rhoi ar y farchnad, a gofynion rhaghysbysu ar gyfer nwyddau penodol a gynhyrchir yng Ngogledd Iwerddon neu Weriniaeth Iwerddon ac a symudir neu a fewnforir i Brydain Fawr o Weriniaeth Iwerddon.
- 3.8 Gofynion yn y gyfraith sy'n atal neu'n cyfyngu ar allforio a mewnforio nwyddau penodol o drydydd gwledydd yw gwaharddiadau a chyfyngiadau, pan fo'r wlad sy'n mewnforio yn credu bod potensial iddynt gyflwyno lefel o risg i iechyd anifeiliaid, planhigion neu'r cyhoedd.
- 3.9 Er mwyn sicrhau parhad ar ôl y cyfnod gweithredu a ddilynodd ymadawiad y DU â'r UE, cyflwynodd Gweinidogion Cymru Reoliadau Paratodau Cig (Cymru) (Diwygio) 2022 (O.S. 2022/618 (Cy. 140)) i estyn y drefn o ganiatáu mewnforio i Gymru o'r Ardal Ewropeaidd Economaidd (AEE) rai cynhyrchion a waharddwyd sy'n dod o

anifeiliaid, yr effeithir arnynt gan waharddiadau a chyfyngiadau, o 30 Mehefin 2022 i 31 Rhagfyr 2022.

Mae'r ataliad ar y gwaharddiad wedi cael ei estyn yn flaenorol gan yr offerynnau canlynol:

- Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Diwygio) 2021 (O.S. 2021/1 (Cy. 1)).
- Gwnaed Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Diwygio) 2021 (O.S. 2021/376 (Cy. 117)), a estynnodd yr ataliad ar y gwaharddiad tan 30 Medi 2021.
- Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Diwygiad) (Rhif 2) 2021 (O.S. 2021/977 (Cy. 231)) i estyn yr ataliad ar y gwaharddiad tan 31 Rhagfyr 2021. Roedd hyn yn galluogi cymhwyso rheolau mewnforio presennol i baratoadau cig wedi ei oeri tan 31 Rhagfyr 2021 yn unol â'r 'dull graddol' o reoli mewnforion a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU. a
- Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021 (O.S. 2021/1480 (Cy. 382)).

3.10 Roedd yr estyniadau hynny'n galluogi rheolau mewnforio i fod yn gymwys ar gyfer paratoadau cig wedi ei oeri i fod yn gydnaws â dull o reoli ffiniau ar gyfer Prydain Fawr gyfan, ac yn unol ag estyniadau cyfatebol i'r "cyfnod graddoli trosiannol", fel y'i diffinnir ym mharagraff 2 o Atodiad 6 i Reoliad (EU) 2017/625. Mae'r Offeryn hwn, drwy arfer y pwerau ym mharagraff 11A(1) o Atodlen 2 i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 yn diwygio ymhellach y dyddiadau a gynhwysir yn Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasu Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021 er mwyn iddynt fod yn unol â'r dyddiad TSP newydd.

3.11 Mae'r offeryn hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Er mwyn rhoi penderfyniad Llywodraeth Cymru ar waith, ar 30 Rhagfyr 2022, mae'r offeryn hwn yn disodli'r dyddiad ar gyfer dod â'r cyfnod graddoli trosiannol i ben, fel y nodir yn Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Ymestyn y Cyfnodau Graddoli) 2021, fel na fydd unrhyw wiriadau mewnforio pellach yn dod i rym ar nwyddau iechydol a ffytoiechydol o'r UE yn 2023.

4.2 Mae penderfyniad y Llywodraeth i beidio â chyflwyno gwiriadau pellach ar nwyddau iechydol a ffytoiechydol yn ystod 2023 yn golygu bod y polisïau dros dro a ganlyn yn cael eu hymestyn hyd at 31 Ionawr 2024 drwy'r offeryn hwn (gyda pholisïau parhaol i ddilyn maes o law):

- Ataliad ar y gofyniad am baratodau cig a fewnforiwyd i Loegr o aelod-wladwriaethau'r AEE, Ynysoedd Ffaro, yr Ynys Las, neu'r Swistir, i gael eu rhewi'n ddwys, gan gadw'r hawddfrait dros dro hwn yn unol â'r rheolaethau cyfnod graddoli trosiannol diwygiedig. Bydd hyn yn caniatáu i baratodau cig o'r gwledydd hyn barhau i gael eu mewnforio mewn cyflwr oer.
 - Mae nwyddau personol sy'n rhan o fagiau teithwyr (ac eithrio planhigion i'w plannu) ac a fwriedir ar gyfer eu bwyta neu eu defnyddio'n bersonol, a llwythi bach o gynhyrchion a anfonir at bersonau naturiol ac na fwriedir eu rhoi ar y farchnad, wedi'u heithrio rhag rheolaethau swyddogol.
 - Mae eithriad rhag hysbysu ymlaen llaw ar gyfer rhai nwyddau penodol a gynhyrchir yng Ngogledd Iwerddon neu Weriniaeth Iwerddon ac a fewnforir o Weriniaeth Iwerddon.
- 4.3 Heb yr offeryn hwn, byddai ceisio cydymffurfio â'r gofyniad am rewi'n ddwys, a drefnwyd fel arall ar gyfer 1 Ionawr 2023, yn creu risg sylweddol o ddryswch yn y sector gan amharu ar y gadwyn cyflenwi bwyd i Brydain Fawr.
- 4.4 Heb yr offeryn hwn, bydd rhaid i'r holl nwyddau iechydol a ffytoiechydol sy'n cael eu mewnforio o'r UE i Brydain Fawr gydymffurfio â gwiriadau dogfenol, ffisegol a hunaniaeth mewn Safleoedd Rheoli Ffiniau ar draws Prydain Fawr o 1 Ionawr 2023 ymlaen. Yn ogystal, byddai angen tystysgrifau Iechyd Allforio a thystysgrifau Ffytoiechydol ar gyfer yr holl gynhyrchion anifeiliaid a phlanhigion a reoleiddir, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau eraill yn y drefn honno.
- 4.5 Byddai cyflwyno rheolaethau ym mis Ionawr 2023 wedi efelychu'r rheolaethau y mae'r UE yn eu cymhwyso i'w fasnach fyd-eang. Byddai hyn wedi cyflwyno gwiriadau cymhleth a chostus a fyddai wedyn wedi'u newid yn ddiweddarach wrth i'n rhaglen trawsnewid gael ei chyflwyno. Felly, rhaid arfer y pwerau a ddarperir bellach i newid y dyddiad dod i ben ar gyfer y darpariaethau graddoli, er mwyn diwygio'r llinell amser ar gyfer cyflwyno rheolaethau mewnforio ar gyfer nwyddau iechydol a ffytoiechydol o'r UE fel y bwriadwyd yn wreiddiol – hynny yw, mewn amserlen a oedd yn rhesymol ac yn gyraeddadwy ar gyfer y sector mewnforigion iechydol a ffytoiechydol, gan leihau'r risg o amharu ar gadwyni cyflenwi bwyd.

5. Ymgynghoriad

- 5.1 Cynhaliwyd ymarfer ymgynghori ym mis Hydref 2022, gan grynhoi'r newidiadau sydd i'w gwneud gan yr offeryn hwn a gwahodd sylwadau, ar effaith diwygio'r llinell amser ar gyfer cyflwyno gwiriadau iechydol a ffytoiechydol fesul cam; a'r effaith bosibl pe na bai'r offeryn hwn yn dod i rym.

- 5.2 Cafodd yr ymgynghoriad ei dargedu at randdeiliaid allweddol yn y sector iechydol a ffytoiechydol, gan gynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau masnach a diwydiant, grwpiau buddiant ac Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd. Ymgynghorwyd â mwy na 65 o sefydliadau ac unigolion.
- 5.3 Ar ddiwedd yr ymgynghoriad, roedd Llywodraeth Cymru wedi cael 15 o ymatebion. Roedd yr ymatebion hyn yn deall yr oedi yn fras o ystyried arwyddocâd gwiriadau mewnforio llawn a phwysau cadwyni cyflenwi. Fodd bynnag, mynegodd yr ymatebwyr bryder bod busnesau sy'n allforio nwyddau iechydol a ffytoiechydol o Brydain Fawr i'r UE yn wynebu rheolaethau mewnforio llawn, ond nad yw nwyddau'r UE yn ddarostyngedig i'r un rheolaethau. Yn ogystal â hyn, mynegodd yr ymatebwyr y dylid parhau i gynnal bioddiogelwch yn y cyfnod cyn i reolaethau mewnforio llawn gael eu cymhwyso. Byddai digon o rybudd o weithredu rheolaethau mewnforio llawn yn hanfodol hefyd i roi digon o amser i fusnesau gynllunio yn unol â hynny. <https://llyw.cymru/diwygiadau-i-reolau-yngylch-gwiriadau-iechydol-ffytoiechydol-sps-mewn-perthynas-mewnforion-o>
- 5.4 Ymgynghorwyd â Llywodraethau'r DU a'r Alban ar y newidiadau a nodir yn yr offeryn hwn. Mae'r ddwy weinyddiaeth yn cefnogi'r angen am yr offeryn hwn ar lefel polisi swyddogol.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

- 6.1 Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Mae swyddogion yn ystyried hyn yn rhan o'r broses o drosglwyddo i drefn hirdymor y DU o reoli ffiniau a mewnfornion ar ôl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

7. Y costau a'r manteision

- 7.1. Nid oes costau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r offeryn hwn.

Manteision

- 7.2 Mae'r penderfyniad i ddiwygio'r amserlen unwaith eto, er mwyn cyflwyno'r holl wiriadau mewnforio sy'n weddill, yn gam sylweddol i sicrhau cefnogaeth barhaus i fusnesau; o ystyried effaith bosibl gwiriadau mewnforio llawn a'r posibilrwydd o bwysau cadwyni cyflenwi. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod costau cynyddol a achosir gan ryfel Rwsia yn Wcráin a phrisiau ynni yn dal i effeithio ar y cyhoedd.

8. Asesiad o'r Gystadleuaeth

Prawf hidlo'r gystadleuaeth	
Cwestiwn	Ateb ie neu na
C1: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a yw unrhyw gwmni yn meddu ar fwy na 10% o gyfran y farchnad?	Na
C2: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a yw unrhyw gwmni yn meddu ar fwy na 20% o gyfran y farchnad?	Na
C3: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a yw'r tri chwmni mwyaf, gyda'i gilydd, yn meddu ar o leiaf 50% o gyfran y farchnad?	Na
C4: A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio lawer yn fwy ar rai cwmnïau na'i gilydd?	Na
C5: A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y cwmnïau?	Na
C6: A fyddai'r rheoliad newydd yn arwain at gostau sefydlu uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu hysgwyddo?	Na
C7: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau parhaus uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu hysgwyddo?	Na
C8: A yw'r sector yn cael ei nodweddu gan newid technolegol cyflym?	Na
C9: A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i bennu pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu nwyddau?	Na

9. Adolygiad ar ôl gweithredu

9.1 Bydd yr offeryn hwn yn darfod ar 31 Ionawr 2024. Mae'n bwysig y byddwn yn gallu dod â'r cyfnod i ben yn gynharach trwy OS arall, neu ei ymestyn eto, os bydd angen, unwaith y bydd dyddiad gweithredu'r Model Gweithredu Targed yn hysbys.